Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR a** gynhaliwyd a 15 Mawrth 2018
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Laurie Pavelin, Trysorydd (yn y Gadair); Carys Howell, Catherine Duigan, Hywel Ceri Jones; Hywel John; Kay Andrews; Keshav Singhal; Jessica Seaton; Michael Prior; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr; Richard Bevins, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro; Diane Gwilt, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **HEFYD YN BRESENNOL**: Peter Owen, Cyfarwyddwr Dros Dro MALD.	
DATGAN BUDDIANNAU – Y Farwnes Kay Andrews mewn perthynas ag eitemau yn ymwneud â Chronfa Dreftadaeth y Loteri.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr Aelodau a Peter Owen i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell (Llywydd Dros Dro), Glenda Jones a Rachel Hughes.	
Yn Sesiwn Gaeedig cyfarfod bu'r Bwrdd yn trafod y broses i recriwtio Llywydd ac Ymddiriedolwyr newydd, Adolygiad Thurley, Cynllun Gweithredol 2018/19, Oriel Gelf Genedlaethol; Amgueddfa Genedlaethol y Gwyddorau Naturiol, Cynllunio Ariannol, Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol, Sganio'r Gorwel, Benthyciadau Rhyngwladol a Thŷ Turner. ***Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 2.1 Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017.	
3 MATERION YN CODI o gofnodion 28 Medi 2017 3.1 **Eitem 9.1 Cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil** Bod y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Chwefror 2018 wedi cael ei ganslo ac y byddai'n cael ei aildrefnu. 3.2 **Eitem 9.5 Strategaeth Ymchwil Ddrafft** Bod y strategaeth yn cael ei datblygu. Roedd ceisiadau am swydd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil wedi'u derbyn a nodwyd yr amserlen ar gyfer recriwtio, gan gynnwys cyfranogiad yr Ymddiriedolwyr yn y broses gyfweld. 3.3 **Sylwadau cyffredinol** y **Cyfarwyddwr Cyffredinol** Cofnododd y Cyfarwyddwr	

Nodiadau	Gweithredu
Cyffredinol safbwynt cyffredinol yr Amgueddfa o ran ei weithgareddau a dyheadau craidd. Er bod gan yr Amgueddfa uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, roedd wedi'i gyfyngu o ran yr hyn y gallai ei gyflawni yn yr hinsawdd gyfredol, oherwydd y cyfyngiadau ariannol oedd arni. Roedd yna gyfleoedd cadarnhaol yn Adolygiad Thurley, Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol, a'r ddwy astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer Amgueddfa Gelf Gyfoes ac Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed. Nododd yr aelodau'r pwysau ar yr Uwch Dîm Rheoli ar hyn o bryd. Mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r undebau llafur cydnabyddedig a'r staff. Gofynnwyd i'r Bwrdd am eu hamynedd mewn perthynas â chyflawni targedau ar sail y cerrig milltir a osodwyd. 3.4 Nododd y Bwrdd y digwyddiad llwyddiannus a gynhaliwyd y noson cynt i nodi 25 mlynedd ers dechrau'r bartneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Derek Williams ac Amgueddfa Cymru. Roedd y Gweinidog yn bresennol ac roedd y Bwrdd yn falch o nodi ei gefnogaeth gyhoeddus i'r Amgueddfa, ac am ei farn y dylai fod llai o adolygiadau o weithgareddau Amgueddfa Cymru yn y dyfodol. Nododd Peter Owen y modd yr oedd y Llythyr Cylch Gwaith yn adlewyrchu'r teimlad cadarnhaol hwn, a chadarnhaodd farn y Gweinidog na ddylai Llywodraeth Cymru ychwanegu'n ormodol at lwyth gwaith yr Amgueddfa.	
4 LLYTHYR CYLCH GWAITH 4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 4.2 Adroddwyd: Bod yr Amgueddfa wedi derbyn y Llythyr Cylch Gwaith drafft, a bod y Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ei groesawu. 4.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd y Llythyr Cylch Gwaith.	
5 DYRANIAD CYLLIDEB 2018/19 5.1 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol wedi adrodd bod y Llythyr Cylch Gwaith yn cadarnhau mai'r Cymorth Grant ar gyfer 2018/19 oedd £21,840,000. 5.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd y diweddariad.	
6 ADOLYGIAD THURLEY 6.1 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi adrodd ar y blaenoriaethau allweddol y byddai'r Amgueddfa'n eu datblygu, gan gynnwys Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ym mhob cam wrth i brojectau gael eu datblygu. Nododd yr aelodau'r meysydd lle cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol eisoes, gan gynnwys sefydlu llwybrau cyfathrebu strategol newydd gyda'r undebau llafur cydnabyddedig, a chyda cysylltiadau staff yn gyffredinol. 6.2 Nododd yr Aelodau bwysigrwydd broject y Ffin Orllewinol i Gaerllion, a'i leoliad	

Nodiadau	Gweithredu
fel ffin orllewinol Ewrop. 6.3 Bu'r Amgueddfa'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd a Croeso Cymru i ddatblygu cyfleoedd ariannu a fyddai'n cefnogi ac yn hyrwyddo arddangosfeydd megis arddangosfa *Japan Ddoe a Heddiw* sydd ar ddod ar hyd a lled Caerdydd. 6.4 Cofnododd y Bwrdd ei bryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer recriwtio Llywydd newydd, a bod y rôl arweinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon yn hanfodol bwysig i'r Amgueddfa. 6.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod staff yn cael eu llongyfarch ar y cyflawniadau cadarnhaol sy'n cael eu gwireddu a bod y rhain yn parhau i gael eu hyrwyddo.	Uwch Dîm Rheoli
7 STRATEGAETH PROFIAD YMWELWYR 7.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr. 7.2 Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Bennaeth yr Amgueddfa – Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, a'r Swyddog Cynnwys Digidol – y ddau a fu'n arwain y gwaith o greu'r strategaeth. Gofynnwyd i'r Ymddiriedolwyr nodi eu rolau eu hunain yn y gwaith o hybu profiadau cadarnhaol i ymwelwyr. Y neges ganolog oedd bod holl amgueddfeydd Amgueddfa Cymru yn derbyn sylwadau ac adborth cadarnhaol iawn ar y cyfan. Nod y strategaeth a'r cynllun gweithredu yw gwneud i'r profiadau cadarnhaol hyn gyfrif drwy rannu'r llwyddiannau hyn, a'u datblygu. Roedd yr Amgueddfa yn cydnabod hefyd pa mor hanfodol yw ymateb yn dda i sylwadau neu gwynion llai cadarnhaol. 7.3 Nododd yr aelodau'r Grwpiau Profiad Ymwelwyr sydd wedi'u sefydlu (un corfforaethol, ac un ar gyfer pob amgueddfa), lle byddai pob adran yn cael ei chynrychioli. Roedd yr Ymddiriedolwyr Carys Howell, Jessica Seaton a Rachel Hughes wedi cytuno i gefnogi'r gwaith hwn. 7.4 Nododd y Bwrdd sut y bydd agweddau ar arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws yr holl amgueddfeydd. Er enghraifft mae'r arwyddion newydd yn Sain Ffagan wedi bod yn llwyddiannus a byddant yn cael eu cyflwyno ar y safleoedd eraill. Nododd yr Aelodau hefyd sut mae'r strategaeth yn cysylltu â chodi arian a'r gwelliant o ran adnabod y brand corfforaethol. Roedd Croeso Cymru wedi cynghori ar hyfforddwr addas i helpu gyda hyfforddiant profiad ymwelwyr a gwasanaeth cwsmeriaid. Mae staff Blaen y Tŷ yn cael eu hyfforddi, a nododd y Bwrdd y cyfleoedd cynhyrchu incwm a allai godi o hyfforddi eraill mewn arferion gorau. Roedd cyrsiau achrededig Hyfforddi'r Hyfforddwr yn cael eu hystyried. 7.5 Roedd yr aelodau'n falch o nodi sut yr oedd y gweithgaredd hwn yn gweithio ar draws meysydd fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg. Mae'r Comisiynwyr ar gyfer y naill a'r llall yn cynnal deialog frwd	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr

Nodiadau	Gweithredu
gyda'r Amgueddfa. 7.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y Strategaeth.	
8 PARTNERIAETH STRATEGOL TREFTADAETH CYMRU 8.1 Adroddwyd: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn adrodd bod y bartneriaeth yn symud ymlaen gyda'i chynlluniau. 8.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y cynnydd yn cael ei nodi.	
9 AMGUEDDFA CHWARAEON AC ORIEL CELF GYFOES GENEDLAETHOL; STRATEGAETH AMGUEDDFEYDD CYMRU 9.1 Adroddodd Peter Owen fod yr astudiaethau dichonoldeb yn mynd rhagddynt ac y gallai cyllid ychwanegol i gefnogi gwaith datblygu pellach fod ar gael ym mlwyddyn ariannol 2019/20. 9.2 O ran yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, cyflwynwyd deuddeg opsiwn posib gan yr ymgynghorwyr, Event. Teimlai Peter Owen fod yr adroddiad yn adroddiad da a oedd yn cynnwys opsiynau realistig a allai gael eu cyflawni. Nododd bod pob un yn gofyn am fuddsoddiad ariannol. Roedd rhywfaint o gyfle i ddatblygu casgliad gwasgaredig a byddai Amgueddfa Cymru'n bartner canolog, pa bynnag argymhelliad/argymhellion terfynol fyddai'n cael eu datblygu. Pan fydd yr adroddiad terfynol ar gael fe'i cyflwynir i'r Gweinidog i'w ystyried, gan gynnwys yr angen i ddyrannu arian i gefnogi datblygiad y cynnig/cynigion. 9.3 O ran yr Amgueddfa Bêl-droed / Chwaraeon, nododd Peter Owen y byddai'r project yn cymryd ychydig flynyddoedd cyn y byddai'n cael ei wireddu'n llawn. Roedd yr adroddiad cychwynnol wedi'i gwblhau ac roedd yr opsiynau'n cynnwys hyb ar gyfer y casgliadau yn Wrecsam, gyda chasgliadau gwasgaredig mewn lleoliadau partner. 9.4 Croesawodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y cyfle i'r Amgueddfa gyfrannu at astudiaethau dichonoldeb a bod yn bartner gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â datblygu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Byddai cydweithio yn parhau i fod yn hanfodol i lwyddiant unrhyw fenter a byddai angen i'r Amgueddfa gael cyfle i drafod yr astudiaethau dichonoldeb yn llawn gyda'r partneriaid. Nododd y ddau adroddiad y rôl ganolog y gallai'r Amgueddfa ei chwarae a chroesawyd hyn. Nododd Peter Owen fod y Gweinidog yn rhannu'r farn hon. 9.5 Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi trafod y materion strategol hirdymor sy'n gysylltiedig â'r astudiaethau dichonoldeb, a chanfyddiadau adroddiad ABL ar ddarparu oriel ar gyfer celf gyfoes yng Nghymru, a luniwyd yn 2008. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod angen i'r Amgueddfa ystyried y cynigion o'r astudiaethau dichonoldeb o safbwynt strategol ehangach, o fewn gweledigaeth ddeng mlynedd. Nododd y Bwrdd yr angen am baramedrau strategol ar gyfer	

Nodiadau	Gweithredu
diwylliant ar draws Cymru gyfan a oedd yn cynnwys sefydlu cyfres o werthoedd, yn ogystal â nodi mentrau cyfredol sydd ar y gweill fel yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth. 9.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd y diweddariad.	
10 ADRODDIAD CHWARTER 3 Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL 10.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 10.2 Adroddwyd: Y byddai'r Bwrdd yn parhau i dderbyn yr adroddiad yn y fformat hwn nes bod yr holl adroddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi'u cwblhau. Nodwyd cynnydd mewn perthynas â gweithgarwch ar gyfer y chwarter, gan gynnwys y sefyllfa ariannol bresennol. Nododd yr aelodau'n benodol y ffigurau addysg cadarnhaol, a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rôl gryfach i greadigrwydd yng nghwricwlwm Cymru. Roedd yr Amgueddfa wedi derbyn gwahoddiad i gyfrannu at y trafodaethau ynghylch newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru. Roedd yr Ymddiriedolwr y Farwnes Andrews yn falch o adrodd bod yr Amgueddfa wedi teithio ymhellach gyda'r rhaglen Cyfuno – trechu tlodi drwy ddiwylliant – nag yr oedd wedi'i gynnig yn ei hadroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru. 10.3 Nododd yr aelodau hefyd bwysigrwydd y gwaith Cyfuno hwn mewn perthynas â lefelau cynyddol o gyflogadwyedd yng Nghymru, ond nad oedd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prentisiaethau yn bosib yn y sector treftadaeth a ariennir yn gyhoeddus. Roedd ffynonellau cyllid posib eraill yn cynnwys Erasmus 2. 10.4 Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei fod ef, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yn ymddangos gerbron Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Chwefror 2018. Diweddarwyd y Pwyllgor ynglŷn â gwaith yr Amgueddfa a chynnydd wrth ymateb i'r argymhellion yn Adolygiad Thurley. Roedd yr aelodau'n falch o glywed am ganlyniadau'r trafodaethau. 10.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. Bod y Polisi Ymchwil Moesegol yn eitem ar yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil. **Gadawodd *Kay Andrews y cyfarfod tua* diwedd yr eitem hon**.	Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro
11 DIWEDDARIAD AR BROJECT AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN 11.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil. 11.2 Adroddwyd: Bod y Bwrdd wedi'i ddiweddaru ynghylch y Cynllun Gweithgarwch, ffigurau ymwelwyr, codi arian a chynhyrchu incwm. Nododd y Bwrdd y momentwm cadarnhaol yn yr amgueddfa, a bod y digwyddiadau'n dychwelyd i'r safle. Roedd sylw'n cael ei roi i fân broblemau, ac roedd yr amgueddfa ar ben ffordd i fod yn barod ar gyfer y dyddiad lansio sef 18 Hydref 2018. Roedd	

Nodiadau	Gweithredu
cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu. 11.3 Nododd yr aelodau fod panel o haneswyr arbenigol wedi cyfrannu at gamau cynnar y project ailddatblygu. Maent yn parhau i fod yn ffynhonnell arbenigedd y gall Amgueddfa Cymru fanteisio arni. Nododd yr aelodau'r cyfyngiadau ariannol a osodwyd ar yr Amgueddfa a oedd yn golygu ei bod wedi'i chyfyngu o ran ei gallu i dalu am agweddau penodol o arbenigedd hanes Cymru o fewn y cyflenwad o staff sydd ganddi. 11.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil yn ystyried rôl haneswyr arbenigol allanol yng ngwaith yr Amgueddfa yn y dyfodol. **Gadawodd Hywel Ceri Jones y cyfarfod *ar yr adeg hon*.**	Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro
12 CYMERADWYO PENODI'R YMDDIRIEDOLWR CARYS HOWELL I FWRDD AGGA CYF 12.1 Adroddwyd: Bod y Cadeirydd wedi amlinellu'r angen i lenwi'r swydd wag ar Fwrdd AGGA Cyf, a grëwyd gan ymddeoliad y cyn-lywydd Elisabeth Elias fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli'r Amgueddfa. 12.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd wedi cymeradwyo penodi Carys Howell yn unfrydol fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli'r Amgueddfa ar Fwrdd AGGA Cyf.	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr
13 DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL – Y DIWEDDARAF AM Y RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR) 13.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 13.2 Adroddwyd: Bod yr Amgueddfa'n parhau i wneud cynnydd da yn ei baratoadau ar gyfer cyflwyno'r Rheoliad ar 25 Mai 2018. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd na fyddai yna unrhyw faterion cydymffurfio o bwys, ond na fyddai darparu sicrwydd 100% yn bosib. Diolchodd y Cyfarwyddwr i'r Pennaeth TG am ei rôl yn arwain y gwaith o baratoi'r Amgueddfa. 13.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd i dderbyn diweddariadau am y cynnydd gyda'r GDPR ar adegau priodol. Rhannu'r cyflwyniad a wnaed i Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Osborne Clarke gyda'r Amgueddfa.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol
14 COFNODION DRAFFT CYFARFODYDD AMRYWIOL 14.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: 14.1.1 Ymddiriedolwyr Pensiwn 28 Chwefror 2018 14.1.2 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 7 Chwefror 2018 14.1.3 Pwyllgor Archwilio 8 Chwefror 2018 14.1.4 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan 6 Mawrth 2018	

Nodiadau	Gweithredu
14.2 Adroddwyd: 14.2.1 **Ymddiriedolwyr Pensiwn** – Nid oedd cofnodion y cyfarfod wedi'u cyflwyno gan nad oeddent wedi'u cymeradwyo eto i'w cyflwyno i'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, nododd y Cadeirydd fod y Cynllun yn cael ei ariannu 92-93%. Roedd y Pwyllgor yn gobeithio y byddai'r Ymddiriedolwr sy'n ymddeol, Tony Atkins, yn ystyried derbyn gwahoddiad i barhau fel Ymddiriedolwr y Cynllun Pensiwn am gyfnod dros dro hyd nes y penodir Ymddiriedolwr newydd. 14.2.2 **Pwyllgor Adolygu Perfformiad** – Bod y Trysorydd wedi adrodd bod y Pwyllgor yn monitro sefyllfa ariannol yr Amgueddfa'n ofalus. 14.2.3 **Sain Ffagan –** Nid oedd cofnodion y cyfarfod wedi eu cyflwyno gan nad oeddent wedi'u cymeradwyo eto i'w cyflwyno i'r cyfarfod hwn gan y Cadeirydd. 14.2.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chyflwyno cofnodion Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn ar 28 Chwefror, a Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan ar 6 Mawrth i gyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
15 UNRHYW FATER ARALL 15.1 **Menywod mewn Cymdeithas** – Llongyfarchodd yr Ymddiriedolwr Catherine Duigan yr Amgueddfa ar y ffyrdd amrywiol a niferus y cafodd cyfraniad menywod at gymdeithas Cymru ei hyrwyddo fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. 15.2 **Arall Robert Windsor-Clive 3ydd Iarll Plymouth** – Gyda thristwch mawr yr adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol am farwolaeth Iarll Plymouth. Roedd yr Iarll wedi bod yn Llywydd ar yr Amgueddfa rhwng 1967 a 1972 ac wedi chwarae rhan unigryw ac arwyddocaol yn natblygiad yr Amgueddfa, ac ymhlith y mwyaf o'i gyfraniadau oedd y rhodd o Gastell Sain Ffagan. Roedd llythyrau cydymdeimlad wedi'u hanfon at y teulu gan y Llywydd Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. 15.3 **Keshav Singhal a Tony Atkins** – Bod y Cadeirydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, wedi cofnodi ei ddiolch i Keshav a Tony, a fyddai'n ymddeol fel Ymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2018, ar ôl cwblhau dau dymor llawn yn y swydd. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu gwaith a'u hymroddiad, gan ddymuno'n dda iddynt.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cychwyn am 9am ar 28 Mehefin 2018 yng Ngwety Seiont Manor, Llanberis.	